Gwelwyd yn gyffredinol fod milgwn du yn aml yn fwy tebygol o beidio â chael eu mabwysiadu am nifer o resymau, gan gynnwys bod yn llai amlwg mewn ffotograffau a stigma sy'n gysylltiedig â chŵn mawr, du. Rydym yn falch o roi blaenoriaeth i gŵn sydd fwyaf angen eu hachub, yn hytrach na'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu mabwysiadu.



- **Derbyniom 101 o gŵn yn ystod y cyfnod hwn**
 - Mae'r tri phrif reswm pam y daeth cŵn atom fel a ganlyn: hyfforddwr milgwn wedi gorffen gyda'r ci, perchennog yn rhoi'r gorau iddo neu'r ci yn cael ei drosglwyddo o loches arall
- **Cafodd 110 eu mabwysiadu neu eu maethu'n barhaol yn ystod y cyfnod hwn. Ein targed yw cyrraedd cyfradd o 140 o gŵn y flwyddyn erbyn 2024 a 180 o gŵn y flwyddyn erbyn 2027**
 - O'r rhain, methodd 19 o'r mabwysiadau.¹ Mae hyn yn rhoi cyfradd methiant mabwysiadu o 17.3%. Ein targed yw cynnal cyfradd methiant o 20% neu lai, yn unol â safonau'r sector
- **Llwyddom i roi 8 ci mewn cartrefi maeth dros dro yn ystod y cyfnod hwn**
 - Lle bo'n briodol (e.e. pan fo gan gŵn broblemau iechyd parhaus sy'n rhwystr rhag iddynt gael eu mabwysiadu) rydym yn defnyddio maethu hirdymor i sicrhau bod ganddynt gartref sefydlog
- **Yn anffodus, bu'n rhaid i ni roi 2 gi i gysgu yn ystod y cyfnod hwn:**
 - Roedd un ohonynt yn gi maeth hirdymor, roedd yn hen a'i iechyd wedi dirywio a dilynwyd cyngor milfeddyg am resymau ansawdd bywyd.
 - Roedd y ci arall â phroblemau ymddygiad mawr ac yn dangos arwyddion cyson o straen eithafol ac yn ymosodol tuag at bobl. Ar ôl rhoi cynnig ar bob opsiwn yn fewnol, ymgynghorwyd ag arbenigwr annibynnol ar ymddygiad a milfeddyg ill dau cyn dod i benderfyniad.

¹ Un mabwysiad wedi methu = un ci wedi'i ddychwelyd i Achub Milgwn Cymru yn dilyn mabwysiadu. Er enghraifft, pe bai rhywun yn mabwysiadu ac yna'n dychwelyd dau gi, byddai hyn yn cyfrif fel dau fabwysiad wedi methu. Gall mabwysiadau aflwyddiannus ddigwydd am amrywiaeth o resymau ac rydym yn gweithio'n agos gyda mabwysiadwyr i gadw'r rhain mor isel â phosibl.



Achub, adsefydlu ac ailgartrefu yw ein pwrpas craidd. Dyna pam y sefydlwyd Achub Milgwn Cymru, ac mae'n waith yr ydym yn ymfalchio'n fawr iawn ynddo.

Cafwyd heriau arbennig yn ystod y cyfnod hwn, nid yn unig i Achub Milgwn Cymru ond i'r sector achub anifeiliaid yn ehangach. Rydym yn dal yn dioddef effeithiau pandemig Covid-19 pan gafwyd cynnydd cychwynnol mewn mabwysiadu, ac yna ton o roi'r gorau i'r cŵn wrth i lawer o bobl ddychwelyd i'r gwaith a sylweddoli nad oeddent bellach yn gallu neu'n fodlon eu cadw. Gwaethygyd hyn ymhellach gan yr argyfwng costau byw sydd wedi gweld nifer o bobl yn gorfod ildio eu cŵn oherwydd na allant fforddio eu cadw mwyach.

Mae hyn oll wedi golygu bod mabwysiadu ar draws y DU wedi arafu ar adeg pan fo'r diwydiant rasio milgwn yn gollwng nifer fawr o gŵn i'n sector. Mae rasio milgwn masnachol yn dychwelyd i Gymru yn rhywbeth gwael o safbwynt ailgartrefu, mae'r rasio yn rhoi pwysau ychwanegol ar hyfforddwyd i wacáu eu cenelau a dod â chŵn cyflymach, mwy proffidiol i rasio ar y trac yn Ystrad Mynach.

Yn ystod y cyfnod hwn, lanswyd ein cynllun Cadw Cŵn mewn Cartrefi, sy'n ceisio cynorthwyo perchnogion a fyddai fel arall yn gorfod rhoi'r gorau i'w milgwn oherwydd pwysau personol neu ariannol. Nid yn unig y mae'n rhaid cofio ei bod yn well cadw cŵn yn eu cartrefi hapus presennol, ond byddai llawer o'r cŵn hyn yn mynd ar ein rhestr aros beth bynnag. Drwy roi ychydig bach o gymorth i berchnogion yn ystod eu hawr o angen, gallwn helpu i ryddhau lle mewn cenelau i gŵn nad ydynt mor ffodus, yn ogystal ag arbed arian i Achub Milgwn Cymru drwy osgoi'r gost o gadw ci arall mewn cenelau.

Ym mis Chwefror 2023, fe wnaethom hefyd lansio ein prosiect "PALS". Mae PALS (Patience, Attitude, Learning

a Support) yn benodol yn targedu mabwysiadwyr sy'n fodlon ac yn gallu mabwysiadu ci sydd ag anghenion ychwanegol. Yn aml iawn mae'r rhain yn broblemau ymddygiad sy'n gofyn am amgylchedd cartref penodol ac mae'r cynllun yn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi mewn cartref lle gallant ffynnu. Yn bwysig, rhoddir hefyd gyfoeth o gefnogaeth a gwybodaeth barhaus i fabwysiadwyr PALS i'w helpu ar y daith o adsefydlu eu ci newydd a'u croesawu i'r teulu.

Mae'r hinsawdd economaidd newidiol hefyd wedi effeithio ar ein cynlluniau hirdymor ar gyfer ein canolfan ailgartrefu. Roedd gwaith i bennu pa mor ymarferol oedd ailadeiladu'r safle'n llwyr wedi dod i'r casgliad nad yw'r prosiect bellach yn ariannol hyfyw yn ei ffurf bresennol. Roedd y cynnydd sydyn yng nghostau adeiladu ar ôl y pandemig yn golygu y byddai cost y prosiect yn llawer uwch na'n gallu i godi arian, a chadarnhawyd hyn gan asesiad annibynnol o ffynonellau ariannu posibl gan gynnwys codi arian cymunedol, cyllid grant, a chymorth gan aelodau. Serch hynny, mae'r prosiect wedi rhoi llawer mwy o ddealltwriaeth i ni o gyflwr presennol ein safle, ac yn ystod y cyfnod hwn cynhaliom gyfres o waith adfer i godi safon y safle ar gyfer y dyfodol agos. Roedd hyn yn cynnwys gwaith trydanol, plymio a draenio hanfodol, yn ogystal â gwelliannau cyffredinol i'r amgylchedd gwaith megis llwybrau newydd, mwy o gysylltedd a gwell diogelwch. Gwnaed cryn lawer o hyn trwy fod pobl wedi rhoi eu hamser a dylid canmol pawb a gymerodd ran am eu hymdrechion.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, ar y cyd â'r Prif Weithredwr, yn ystyried opsiynau ar gyfer dyfodol safleoedd ailgartrefu. Mae nifer o gyfleoedd i'w hystyried megis ailddatblygu'r safle presennol yn rhannol/mewn camau, prynu safle ychwanegol, a llogi gofod cenel a hyn oll i gyfrannu at gyflawni ein strategaeth 5 mlynedd bresennol.



Cefnogi rhoi diwedd ar rasio milgwn yng Nghymru



Yn dilyn y bleidlais yn y cyfarfod arbennig i aelodau (EGM) ym mis Mawrth 2022, mabwysiadodd Achub Milgwn Cymru y genhadaeth hon yn swyddogol gan ymgorffori 'Cymru heb rasio milgwn' yn ein gweledigaeth. Am flynyddoedd lawer, 'niwtral' oedd ein safiad ar rasio milgwn mewn ymdrech i weithio ochr yn ochr â'r diwydiant i gael yr amddiffyniadau angenrheidiol i filgwn rasio. Yn anffodus (ac er gwaethaf ymdrechion sylweddol ar hyd y ffordd), ni chafwyd y gwelliannau lles hyn ac roeddent yn symud mor araf fel na chaent unrhyw effaith wirioneddol. Er bod y bleidlais yn llethol o blaid mabwysiadu safiad yn erbyn rasio milgwn, roedd yr aelodau'n glir nad oeddent eisiau i Achub Milgwn Cymru newid yn ddifawr i fod yn elusen sy'n canolbwyntio ar ymgyrchoedd. Teimlwn ein bod wedi cael cydbwysedd da yn hyn o beth, gan gadw achub, adsefydlu ac ailgartrefu i fod yn fusnes craidd i ni ond hefyd ein bod yn weithredol yn yr ymgyrch sydd am roi terfyn ar rasio milgwn yng Nghymru.

Bu'r penderfyniad i newid safiad yn un doeth oherwydd newidiodd yr RSPCA, Dogs Trust a Blue Cross hwythau eu safiad ym mis Medi 2022 yn dilyn prosiect ymchwil helaeth i'r diwydiant rasio milgwn. Maen nhw nawr yn galw am roi'r gorau'n raddol i rasio milgwn ar draws y DU.

Yn ystod y cyfnod hwn ffurfiwyd clymblaid Cut The Chase yng Nghymru, a'r aelodau yn cynnwys Achub Milgwn Cymru, Hope Rescue, yr RSPCA, Blue Cross a'r Dogs

I support a phased end to greyhound racing in Wales



#CutTheChase



Trust. Fel prif elusen achub milgwn Cymru, rydym yn teimlo bod ein profiad a'n gwybodaeth helaeth o achub milgwn rasio wedi bod yn ychwanegiad i'w groesawu i'r glymblaid. Mae gweithio mewn clymblaid hefyd wedi galluogi rhannu gwybodaeth ac adnoddau na fyddent ar gael i ni yn unigol. Nid yn unig y mae hyn yn well gwerth am arian i'n haelodau a'n cefnogwyr, ond mae hefyd er lles y milgwn yr ydym yn ceisio eu helpu.

Yn sgil y ddeiseb o dros 35,000 o lofnodion a gyflwynwyd i bwyllgor deisebau'r Senedd, lluniwyd adroddiad yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu gwaharddiad, yn ogystal â blaenoriaethu gwaith arall yn y cyfamser yn ymwneud â lles milgwn rasio. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ymgynghoriad cyhoeddus ar ddyfodol rasio milgwn yng Nghymru, a bydd hwn yn dal yn fyw adeg ein Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol nesaf.

Er ein bod yn croesawu'r ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ymgynghori ar rasio milgwn, rhaid inni beidio â bod yn hunanfodlon â'n gwaith ar waharddiad. Mae arolygon barn yn dangos nad yw rhan fawr o'r cyhoedd yn y DU yn ymwybodol o rasio milgwn, gan ei fod wedi dod yn ddi-ddordeb cymharol arbenigol.² Mae llawer o bobl yn cael sioc o glywed bod rasio milgwn yn dal i ddigwydd yng Nghymru.

Mae poblogrwydd rasio milgwn wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blyneddoddi diwethaf, a'r diwydiant yn colli arian o ganlyniad. Mae'r cyfuniad hwn o lai o arian a llai o ddiddordeb o du'r cyhoedd yn gymysgedd peryglus i filgwn rasio. Pan fo cyllidebau'n cael eu gwasgu ym maes rasio milgwn, gwyddom o brofiad mai lles yn aml yw'r elfen gyntaf i ddi-ddordeb, ac mae diffyg diddordeb y cyhoedd yn gyffredinol yn arwain at ddiffyg craffu gan asiantaethau'r llywodraeth a rheoleiddwyr ill dau. Mae rasio milgwn fel diwydiant yn manteisio ar ddiffyg gwybodaeth y cyhoedd am y gwir effaith y mae rasio yn ei chael, sef miloedd o filgwn yn cael eu hanafu ac yn marw bob blwyddyn ym Mhrydain yn unig. Rhaid inni felly barhau â'n negeseuon a dangos i'r cyhoedd wir effaith rasio ar filgwn yng Nghymru. Drwy wneud hynny, gallwn sicrhau bod y cyhoedd yn gallu gwneud dewis gwybodus am ddyfodol rasio yng Nghymru.

²Arolwg YouGov, wedi'i gynnal ym mis Medi 2022 ar ran yr RSPCA: https://docs.cdn.yougov.com/5ue6z1j8dd/RSPCA_Greyhound_220914_W.pdf

Codi ymwybyddiaeth am y problemau sy'n wynebu milgwn

Fel elusen achub ac ailgartrefu cŵn potsiwr a milgwn yng Nghymru, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae wrth addysgu'r cyhoedd am y materion sy'n wynebu'r anifeiliaid gwych hyn.



Mae rhan o hyn yn canolbwyntio ar rasio milgwn a pharhau i ddangos i'r cyhoedd beth yw gwir effaith rasio ar filgwn. Mae llawer o'r wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus, ond mae diffyg diddordeb y cyhoedd mewn rasio milgwn yn gyffredinol yn golygu mai anaml y bydd yn cyrraedd y penawdau. Wedi dweud hynny, mae digwyddiadau lles uchel eu proffil yn cael sylw yn bryderus o aml ar y cyfryngau rhanbarthol a chenedlaethol unwaith bob tua 2 i 3 mis. Ond nid yw'r rhain ond cip ar y darlun cyfan, ac mae'n bwysig bod y cyhoedd yn cael gwybod am ddiwyddiadau hyd yn oed os nad ydyn nhw'n cael eu hystyried yn "deilwng i fod yn newyddion" gan y cyfryngau mwy o faint. Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am rasio milgwn yng Nghymru.

Mae cyfrifoldeb arnom hefyd i gefnogi croesfridiau milgwn. Mae cŵn potsiwr yn wynebu heriau unigryw eu hunain ac mae'r argyfwng costau byw wedi gweld cynnydd yn y nifer ohonynt sydd angen ein cefnogaeth. Oherwydd eu bod yn cael eu defnyddio mewn gwahanol fathau o hela, mae cŵn potsiwr yn aml yn cael eu gwaredu pan nad ydynt bellach yn gallu ennill eu cadw, ac mae dyletswydd arnom i hysbysu'r cyhoedd am y broblem.

Yn fwy cyffredinol, mae yna faterion sy'n effeithio ar bob ci a ddaw i'n sylw, neu efallai problemau sy'n effeithio ar bob ci ond sydd ag elfen arbennig yn achos milgwn a chŵn hela. Mae perchnogaeth gyfrifol a gwybodys yn bwysig i bob perchennog ci, ond mae angen i berchnogion cŵn hela yn arbennig fod yn ymwybodol iawn o faint a chyflymder eu cŵn a beth mae hynny'n ei olygu o ran perchnogaeth gyfrifol. Rydym wedi llunio

cyfres o ganllawiau 'Gwybodaeth Ddefnyddiol' ar ein gwefan i helpu perchnogion newydd a phresennol gyda'u cŵn, yn ogystal â pharhau i ddefnyddio ein blog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am faterion cyfoes wrth iddynt godi.

Fel llawer o fridiau cŵn, mae gan filgwn a chŵn hela eu cymuned eu hunain o ddilynwyr, ond rhaid inni geisio apelio at grŵp ehangach o bobl i ledaenu'r gair am y materion sy'n effeithio ar y cŵn gwych hyn. Po fwyaf y gallwn addysgu'r cyhoedd a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau am y materion sy'n wynebu cŵn potsiwr a milgwn, y mwyaf o bobl fydd gennym ar ein hochr ni pan ddaw i'r penderfyniadau pwysig.

Mae ein prosiect Cŵn Therapi wedi bod yn rhan bwysig nid yn unig o'n gweithgarwch codi arian, ond hefyd ein gwaith cymunedol. Yn aml, trwy fynd â milgwn a chŵn potsiwr i ysgolion, colegau, cartrefi gofal, a grwpiau cymunedol, gallwn godi ymwybyddiaeth ymhlith grŵp hollol newydd o bobl nad oeddent yn ymwybodol o'r anifeiliaid rhyfeddol hyn o'r blaen a'r heriau y maent yn eu hwynebu. Rydym hefyd yn aml yn cael ymholiadau am fabwysiadu yn dilyn ymweliadau Cŵn Therapi gan bobl sydd wedi dotio at natur dyner a thawel llawer o'n cŵn. Rydym yn bwriadu ehangu ein cynllun Cŵn Therapi yn ystod y blynyddoedd nesaf i gynorthwyo â'n gwaith cymunedol, codi ymwybyddiaeth, annog mabwysiadu, ac fel mecanwaith codi arian. Er bod Cŵn Therapi wedi'i arwain yn bennaf gan y gymuned hyd yma, mae gennym hefyd ddiddordeb mewn posibiliadau ehangach ar gyfer y cynllun, megis therapi anifeiliaid anwes corfforaethol, a allai fod yn ffrwd incwm sylweddol.



Hyrwyddo cŵn potsiwr a milgwn fel anifeiliaid anwes

Roedd hon yn flwyddyn a welodd mabwysiadu anifeiliaid anwes yn arafu yn gyffredinol ledled y wlad, gan fod llai o bobl â'r modd neu'r awydd i fabwysiadu anifail anwes newydd.

Wedi dweud hynny, fe wnaethom ddyfalbarhau i ledaenu'r neges bod cŵn potsiwr a milgwn yn gallu bod yn anifeiliaid anwes gwych.

Ymddangosodd staff ac ymddiriedolwyr Achub Milgwn Cymru ar nifer o gyfryngau eleni i siarad am fabwysiadu cŵn potsiwr a milgwn, gan esbonio i'r cyhoedd sut beth yw mabwysiadu ac, yn bwysicaf oll, sut y gallant wneud hynny.

Mae llawer o fudiadau milgwn wedi hyrwyddo neges debyg yn y degawdau diwethaf. Ar un adeg roedd yna gred gyfeiliornus bod milgwn yn anifeiliaid gwyllt, afreolus a oedd yn ymosodol ac yn anniddig ac na ellid eu hailgartrefu y tu allan i amgylchedd y byd rasio. Yn anffodus, roedd hyn yn aml yn esgus wedi'i ledaenu gan hyfforddwy a oedd am ewthaneiddio'r rhan fwyaf neu'r cyfan o'u cŵn pan nad oeddent bellach yn addas ar gyfer rasio. Er mwyn brwydro yn erbyn hyn, roedd sefydliadau mabwysiadu fel ni yn aml wedi mynd ati i hyrwyddo'r stereoteip o gi 40mya – ci diog sydd ond angen ychydig o ymarfer corff ac sy'n setlo'n dda i fywyd cartref segur. Mae ymchwil gan Dogs Trust wedi dangos bod y stereoteip hwn yn apelio'n bennaf at ddemograffeg hŷn o fabwysiadwyr, gydag oedran cyfartalog mabwysiadwyr milgwn yr hynaf o unrhyw frid cŵn. Ond ar y llaw arall, serch hynny, mae hyn wedi gwneud mabwysiadwyr iau ac/neu rai sy'n gorfforol yn fwy egniol yn betrus o fabwysiadu milgwn, gan ofni y gallent fod yn rhy ddiog i ymuno â nhw ar eu teithiau cerdded ar y penwythnos neu i loncian o amgylch y parc lleol. Credwn fod hon yn farchnad fawr heb ei chyffwrdd ar gyfer mabwysiadu milgwn, ac rydym yn gweithio'n galed i hyrwyddo ein neges bod 'milgi i bawb'.

Mae gan filgwn, fel llawer o gŵn, ystod eang o bersonoliaethau ac rydym yn gweithio'n galed i baru'r ci

iawn â'r cartref iawn. Rydym yn defnyddio dull seiliedig ar allbwn o asesu cartrefi yn hytrach nag un sy'n seiliedig ar fewnbwn. Yn hytrach na gofyn i fabwysiadwyr fodloni rhestr benodedig o feini prawf, gofynnwn iddynt ddangos eu bod yn gallu diwallu anghenion ci drwy'r dulliau a'r modd sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, yn hytrach na gofyn 'a oes gennych chi ardd breifat, ddiogel?' efallai y byddwn yn gofyn 'a oes gennych chi fodd o ddefnyddio ardaloedd allanol addas ar gyfer mynd i'r toiled ac ymarfer corff/chwarae?' a thrafod y pethau ymarferol cyn dod i gasgliad. Gan ddefnyddio'r dull hwn rydym wedi llwyddo i ailgartrefu cŵn i bob math o gartrefi, gan gynnwys fflatiau, cartrefi modur a chychod. Rydym ni'n gwneud ein gorau i ledaenu'r gair ynghylch ein dull o ailgartrefu a gwneud i bobl ailfeddwl llawer o'r camsyniadau sydd yna ynghylch mabwysiadu ci o loches.

Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith hyrwyddo yn y maes hwn wedi'i wneud drwy ddulliau isel eu cost neu'n ddi-dâl fel digwyddiadau wyneb yn wyneb, y cyfryngau cymdeithasol, ein gwefan ein hunain, a chyfryngau sydd â diddordeb mewn trafod mabwysiadu cŵn. Er ein bod bob amser yn ymdrechu i sicrhau'r gwerth gorau am arian, rydym yn cydnabod bod hwn yn faes y gallai fod yn rhaid i ni wario mwy o arian ynddo yn y dyfodol agos i ledaenu ein neges i gynulleidfa ehangach.



Creu Incwm

CODI ARIAN

£129,286.65

CYFANSWM INCWM (CODI ARIAN),
GAN GYNNWYS RHODD CYMORTH

£18,658.32

AELODAETH

£24,453.17

RHODDION

£12,978.43

RHODD CYMORTH

£3,443

LOTERI

£25,000

GRANTIAU

£44,753.73

ARALL (E.E. DIGWYDDIADAU ARBENNIG,
RAFFL/HYRWYDDIADAU ETC.)

£32,940.53

COSTAU (GAN GYNNWYS STAFF, OFFER
A THREULIAU ERAILL)



Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni a chostau wedi codi'n sydyn, mae ein timau incwm wedi gorfod ymateb i'r her o gynyddu'n sylweddol y swm y maent yn dod i mewn. Mae'r her hon wedi'i dwysáu gan amgylchedd lle mae llawer o bobl yn gorfod torri'n ôl ar faint maen nhw'n ei roi i elusennau.

Er gwaethaf yr heriau hyn, rydym yn falch o'r canlyniadau rydym wedi'u cyflawni ac yn hynod ddiolchgar i'n cefnogwyr hael am barhau i roi er mwyn helpu cŵn potsiwr a milgwn sydd mewn angen.

Maes twf penodol yn y cyfnod hwn oedd faint o gyllid a godwyd o grantiau. Roedd llwyddiannau arbennig yn cynnwys cael cymhorthdal i'n costau milfeddyg ac ariannu prynu fan newydd i gludo cŵn. Ein nod yw dod o hyd i 10% o'n holl incwm o gyllid grant erbyn 2025, ac

mae gennym nifer o feysydd datblygu o fewn yr elusen y mae gan gyllidwyr ddiddordeb arbennig yn eu cefnogi.

Ar ddiwedd y cyfnod hwn, recriwtiwyd cydlynnydd penodol ar gyfer codi arian cymunedol. Nid yn unig y mae hyn yn rhoi modd i ni gynyddu'n sylweddol faint o godi arian cymunedol y gallwn ei gefnogi, ond mae hefyd yn rhyddhau eraill i ganolbwyntio ar weithgareddau ariannu sydd ag enillion uwch megis cyllid grant a nawdd corfforaethol. Mae hyn yn rhan o gynllun mwy i ehangu ein hincwm hyd yn oed ymhellach yn y dyfodol agos.

Mae cynllun Rhodd Cymorth yn parhau i fod o fudd sylweddol i Achub Milgwn Cymru yn ei gyfanrwydd, ac mae symud tuag at brosesau mwy awtomataidd wedi ein galluogi i fanteisio ar gynifer â phosibl o roddion cymwys.



MANWERTHU

£524,069.13

CYFANSWM INCWM (MANWERTHU),
GAN GYNNWYS RHODD CYMORTH

£366,124.82

COSTAU (GAN GYNNWYS STAFF,
RHENT, A THREULIAU ERAILL)

Mae hyn yn rhoi cyfanswm elw o tua 30%. Mae hyn yn cyd-fynd â safon y sector o rhwng 20% a 40% ar gyfer manwerthu elusennol, ac ymhell uwchlaw ein trothwy isaf ein hunain o 17%.

Mae siopau elusen wedi bod yn rhan allweddol o'n llwyddiant ariannol ers amser maith. Mae gennym fodel profedig ar gyfer ein siopau sy'n canolbwyntio ar gyflwyno nwyddau yn ddiendiol, a hefyd gylchdroi stoc i'r lleoliadau cywir i gael y prisiau gwerthu uchaf posibl. Mae gan bob un o'n siopau gynulleidfa unigryw ac mae gan ein staff ddealltwriaeth fanwl o'u sylfaen cwsmeriaid. Er enghraifft, mae ein lleoliad yng Nghaerdydd yn hynod boblogaidd gyda myfyrwyr, tra bod ein siop yn y Fenni yn denu nifer fawr o dwristiaid. Trwy addasu ein siopau i bob cynulleidfa ar yr un pryd â chynnal ein safonau craidd, gallwn sicrhau ein bod yn codi cymaint o arian â phosibl ar ran ein rhoddwyr gwerthfawr.

Mae dirywiad economaidd y 24 mis diwethaf wedi bod yn gleddyf daufiniog mewn rhai ffyrdd. Er ei fod wedi gweld mwy o gwsmeriaid yn dod i'r siopau elusen i chwilio am fargeinion, mae weithiau wedi arwain at ostyngiad yn nifer ac ansawdd y rhoddion sy'n dod i'n siopau. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae ein timau manwerthu wedi gwneud yn arbennig o dda ac mae llawer o'n siopau wedi rhagori ar eu targedau trwy addasu eu harlwy i weddu i arferion newidiol cwsmeriaid.

Mae siopau elusen yn ddull drutach o godi arian na ffyrdd eraill ac nid yw o reidrwydd yn sicrhau'r adenillion buddsoddi uchaf punt-am-bunt. Fodd bynnag, yr hyn y mae'n ei wneud yw darparu llif incwm cyson a dibynadwy i'r elusen. Mae tueddiadau diweddar wedi dangos, pan gaiff ei wneud yn iawn, y gall siopau elusen fod yn fwy gwydn i rai risgiau na manwerthu masnachol mewn sawl ffordd. Mae ein siopau elusen hefyd yn fwy nag arf codi arian yn unig, maent yn rhan annatod o'u cymunedau. Maent yn llythrennol yn ffenest siop i'r elusen ac yn aml yn lledaenu'r gair am ein gwaith i gynulleidfa lawer ehangach nag y byddem yn ei chyrraedd fel arall. Yn y digwyddiadau a gynhaliwyd gan ein siopau eleni, megis casgliadau stryd, ffeiriau haf, digwyddiadau Balchder a'n Sioe "Trashion" yn Abertawe, llwyddom i ymgysylltu â miloedd o gefnogwyr, rhoddwyr, aelodau a mabwysiadwyr newydd posibl.

Mae Rhodd Cymorth wedi bod yn hynod werthfawr i'n busnes manwerthu eleni, ac mae ein timau manwerthu yn gweithio'n galed i sicrhau eu bod yn cofrestru cynifer o roddwyr cymwys â phosibl. Roedd ein hawliad Rhodd Cymorth manwerthu ar gyfer eleni yn fwy na £32,000.

Datblygu sefydliadol

Mae hon wedi bod yn flwyddyn drawsnewidiol i Achub Milgwn Cymru fel mudiad.



Dyma'r flwyddyn lawn gyntaf i'r elusen allu cyflogi staff cyflogedig ar bob lefel ac mae hyn wedi cyflymu'r newid yn sylweddol.

Mae datblygu sefydliadol yn ymwneud â helpu cynifer o gŵn potsiwr a milgwn â phosibl, ar yr un pryd â sicrhau gwerth am arian i'r cefnogwyr sy'n rhoi cymaint er mwyn i ni allu cyflawni ein gwaith hanfodol. Mae Achub Milgwn Cymru yn trawsnewid o fod yn fudiad a arferai gael ei redeg gan wirfoddolwyr i fod yn elusen broffesiynol dan arweiniad staff. Mae hyn i gyd yn golygu manteision sylweddol i'r cŵn rydyn ni'n eu helpu, ond mae hefyd yn dod â heriau yn ei sgil.

Fel unrhyw sefydliad sy'n tyfu, mae'n rhaid i ni gydnabod yr angen i ddatblygu, moderneiddio a gwella. Mae arferion a weithiai pan oeddem yn ailgartrefu 80 o gŵn y flwyddyn gyda 10 o weithwyr yn debygol o fod yn gwbl anymarferol i fudiad modern sy'n ailgartrefu 140 o gŵn y flwyddyn ac sydd â bron i 30 o weithwyr. Mae mudiad mwy o faint, gyda mwy o gŵn a mwy o bobl, hefyd yn dod â mwy o risg yn ei sgil. Mae'n bwysig ein bod yn asesu ac yn rheoli risg ar lefel briodol ar gyfer maint yr elusen, ac yn cymryd y camau angenrheidiol i'w lliniaru.

Wrth fynd drwy'r broses hon o ddatblygu rydym wedi gwneud nifer o newidiadau allweddol. Rydym wedi rhoi rhaglen ffurfiol i hyfforddi staff ar waith i sicrhau bod staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf a sgiliau pwysig ar gyfer eu rolau priodol. Rydym wedi tynhau rheolaeth ar bolisi i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn gywir. Rydym hefyd wedi gweithredu system fwy cadarn o reoli ac adolygu risg yn rheolaidd ar y lefelau strategol a gweithredol.

Yn ogystal â hyfforddiant mewnol, rydym hefyd wedi cyflwyno datblygiad proffesiynol mwy strwythuredig a chynnig hyfforddiant allanol i'n staff. Wrth i Achub Milgwn Cymru dyfu, mae'r sgiliau sydd eu hangen ar ei staff yn mynd yn fwy cymhleth, yn enwedig y rhai sydd â chyfrifoldebau rheoli neu oruchwylio. Trwy fuddsoddi yn ein timau gallwn sicrhau'r llwyddiant mwyaf i'r elusen ac yn y pen draw cynyddu nifer y cŵn y gallwn eu helpu.

Yn fewnol, rydym wedi gweithio'n galed i ddigideiddio ac awtomeiddio llu o brosesau gweithio. Gan fod gennym saith safle ledled Cymru a nifer yn gweithio o bell, mae'n hanfodol ein bod yn cael gwared ar gymaint o waith papur â phosibl a newid i ddulliau cydweithredol ar-lein i wneud yr elusen mor effeithlon ac effeithiol ag y gall fod. Mae hefyd yn hanfodol nad yw amser gwerthfawr staff yn cael ei wastraffu ar dasgau llafurus diangen pan fo dewis awtomataidd rhatach a chyflymach ar gael.

Ynghyd â newidiadau mewnol, rydym wedi gwneud nifer o newidiadau sy'n ymwneud â'r cyhoedd er budd yr elusen. Rydym yn canolbwyntio ar brofiad cwsmeriaid o safbwynt y dieithryn. Rydym am i bob rhyngweithio y mae'r cyhoedd yn ei gael gyda ni fod mor llyfn â phosibl, o roi rhodd ariannol i fabwysiadu ci. Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, rydym wedi gwneud mwy o ddefnydd o lwyfannau digidol ac integreiddio ac wedi gwneud mwy o waith ar gynllunio taith cwsmeriaid. Yn rhy aml o lawer, mae elusennau llai yn syrthio i'r fagl o feddwl 'os yw rhywun yn malio, byddan nhw'n gwneud beth bynnag sydd ei angen i'n cefnogi ni'. Mae cystadleuaeth gref am gymorth ymhlith elusennau er budd anifeiliaid yn y DU a gallai taith wael i gwsmer fod y gwahaniaeth rhwng rhywun yn ein cefnogi neu'n mynd i rywle arall. Mae denu cefnogwyr newydd yn allweddol i'n cynlluniau ar gyfer twf yn y dyfodol agos.

Eleni dathlwyd ein pen-blwydd yn 30 oed gyda nifer o ddigwyddiadau yn arwain at ginio dathlu mawreddog yn adeilad y Senedd. Roedd hwn yn garreg filltir gyntaf i Achub Milgwn Cymru ac mae'n gam pwysig i ddod yn sefydliad mwy cysylltiedig sy'n cael ei barchu gan lunwyr polisi a rhoddwyr mawr fel ei gilydd. Deilliodd nifer o fanteision tymor byr a hirdymor o'r cinio, gan gynnwys ymgysylltu ymhellach â gwleidyddion, rhoddion mawr, partneriaethau corfforaethol cynyddol, a chynigion o gymorth gan sefydliadau eraill.


Nod cyffredinol datblygu sefydliadol yw galluogi'r elusen i wneud mwy a'i wneud yn well. Ni fydd ceisio gwneud mwy o'r un peth, yn yr un ffordd ag a wnaed erioed, yn sicrhau llwyddiant. Gall arferion a oedd yn dderbyniol mewn sefydliad llai o faint fod yn beryglus unwaith y bydd y sefydliad wedi ehangu, ac mae'n bwysig parhau â'r broses hon o ddatblygu wrth i ni dyfu.



INCWM

	MANWERTHU	CASGLIADAU	FFIOEDD AILGARTREFU	CODI ARIAN	TAW WEDI'I ADENNILL	RHODD CYMORTH (CODI ARIAN)	RHODD CYMORTH (MANWERTHU)	ARALL	CYFANSWM
2020-21	£167,018	£1,639	£27,374	£380,626	£32,462	£10,358	£0	£1,498	£620,975
2021-22	£360,466	£1,192	£37,647	£155,727	£27,662	£21,420	£8,406	£1,602	£614,120
2022-23	£492,048	£1,330	£25,216	£114,979	£57,669	£12,978	£32,021	£3,750	£739,990



Canrannau cyfanswm yr incwm 2022-2023



GWARIANT

	HILLCREST	ACHUB AC AILGARTREFU	GORBENION	DATBLYGU HILLCREST	MANWERTHU	NWYDDAU	GWARIANT ANARFEROL*	CYFANSWM
2020-2021	£101,710	£35,933	£49,226	£41,051	£233,879	£1,621		£463,420
2021-2022	£113,875	£50,555	£82,234	£38,834	£280,189	£3,786		£569,472
2022-2023	£119,460	£97,910	£141,801	£29,680	£368,181	£2,016	£23,269	£782,317

Canrannau gwariant 2022-2023



*Cytunodd y Bwrdd, yn y cyfnod hwn, i greu categori ychwanegol ar gyfer gwariant anarferol. Roedd hyn yn cynnwys mynd i'r afael â thanwariant hanesyddol ar ein canolfan ailgartrefu Hillcrest, ehangu ein cyfleusterau cenel, cynlluniau wrth gefn ar gyfer effeithiau'r dirywiad economaidd, digwyddiadau i nodi 30 mlynedd, ac ehangu ein cangen manwerthu.

Gan fod gwarged iach gennym ar ddechrau'r flwyddyn, gwnaed penderfyniad ymwybodol i fuddsoddi mewn nifer o feysydd i osod y sylfaen ar gyfer twf yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys uwchraddio nifer o systemau, mynd i'r afael â thanwariant hanesyddol ar ein canolfan ailgartrefu, recriwtio staff, ehangu ein capasiti cenel a datblygu ein gallu i godi arian ar raddfa llawer mwy.

Cydnabuwyd y byddai hon yn flwyddyn y byddem yn gweithredu ar ddiffyg, er mwyn gwireddu buddion y buddsoddiadau hyn ymhen 2 i 4 blynedd. Rhoddwyd sylw manwl i gynllunio cyllidol a dylid canmol y tîm rheoli am gadw'n ofalus a diwyd at gyllidebau.

Er i ni gael hwb cychwynnol mewn incwm, mae effeithiau'r dirywiad economaidd a'r cynnydd sydyn

mewn chwyddiant wedi golygu cynnydd mawr yn ein costau gweithredu arferol. Mae hyn ond wedi atgyfnerthu'r angen i amrywio ac ehangu ein ffynonellau incwm yn fawr dros y 2 i 5 mlynedd nesaf, er mwyn gosod yr elusen mewn sefyllfa ariannol fwy cydnerth. Mae hyn hefyd yn sail i'n dymuniad i ailgartrefu 180 o gŵn y flwyddyn erbyn 2027, a bydd hynny'n gofyn am gynnydd sylweddol mewn adnoddau.

Gweler y 'Cyfrifon Dilysu' gan ein harchwilwyr Rimmer a May i gael datganiad ariannol llawn Achub Milgwn Cymru ar gyfer 2022-2023 yn [greyhoundrescuewales.co.uk/annual-accounts](https://www.greyhoundrescuewales.co.uk/annual-accounts)

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi nodi nad yw'r flwyddyn adrodd (CCB i CCB) yn cyfateb i flwyddyn adrodd ariannol y sefydliad a byddant yn cywiro hyn yn 2024.

Llywodraethu

Wrth i Achub Milgwn Cymru gamu'n gadarn i fod yn elusen dan reolaeth Prif Weithredwr ac wedi'i goruchwyllo gan Fwrdd Ymddiriedolwyr, rydym wedi gosod nifer o arferion llywodraethu i sicrhau digon o drefn i bopeth redeg yn llyfn.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwell cynllun dirprwyo sy'n cynnwys nid yn unig rheoli gweithrediadau, ond hefyd swyddogaethau ariannol, y cyfryngau a rheoleiddio
- System ffurfiol o weithgorau sy'n gallu cynnwys staff, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr. Gall yr is-grwpiau hyn feddu ar bwerau gweithredol cyfyngedig wedi'u goruchwyllo gan y Prif Weithredwr a rhaid iddynt adrodd i'r Bwrdd yn rheolaidd
- Rhythm adrodd sefydledig rhwng y Prif Weithredwr a'r Bwrdd

Yn dilyn y penderfyniad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf y bydd Achub Milgwn Cymru yn dod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO), mae'r gwaith i ddrafftio cyfansoddiad newydd i'w ystyried gan aelodau wedi arwain at ddogfen hynod gadarn llawn ymchwil sy'n addas ar gyfer yr elusen i'r dyfodol. Mae'n mynd i'r afael â nifer o broblemau hanesyddol yn ein dogfen lywodraethol bresennol, yn ogystal â bod yn llawer mwy addas ar gyfer anghenion elusen fodern.

Mae ailgyflwyno grŵp Swyddogion wedi parhau i fod yn hynod werthfawr. Wrth i strwythurau newydd ymsefydlu, gellir lleihau pa mor aml y mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn dilyn cyfnod o newid o ddwy flynedd a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd ddod at ei gilydd bron yn fisol (yn ogystal â rhai gweithgorau a oedd hefyd yn cyfarfod yn wythnosol). Wedi dweud hynny, mae ein cynllun dirprwyo yn egluro pa faterion y mae angen eu cyfeirio at Swyddogion i'w cymeradwyo, a'r is-grwpiau wedi cael pwerau cyfyngedig i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn da bryd. Mae hefyd yn lleihau'r angen i benderfyniadau gweithredol fynd ag amser gwerthfawr yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd.




Sut gallwch chi ein helpu



RHOI ARIAN

Gallai cyn lleied â £1.50 yr wythnos wneud gwahaniaeth i un o'r cŵn yn ein gofal. Nid ydym yn derbyn unrhyw gyllid gan y llywodraeth na diwydiant ac rydym yn dibynnu'n llwyr ar ein rhoddwyr hael i gyflawni ein gwaith hanfodol. Ewch i'n gwefan heddiw a threfnwch eich rhodd mewn munudau.



MABWYSIADU

Cynnig cartref oes i filgi mewn angen yw'r rhodd fwyaf y gallwch ei rhoi. Os hoffech wybod mwy am ein proses fabwysiadu, ewch i'n gwefan. Mae ein tîm ailgartrefu rhagorol bob amser wrth law i ateb eich cwestiynau. Credwn fod milgi i bawb ac rydyn ni'n gweithio'n galed i baru'r ci iawn gyda'ch teulu.



GWIRFODDOLI

Mae gwirfoddoli yn ffordd wych o gymryd rhan yn ein helusen wrth ddatblygu sgiliau newydd a meithrin cyfeillgarwch newydd. O siopau manwerthu i ailgartrefu'r cŵn i ymuno â'n Bwrdd Ymddiriedolwyr, mae gennym bob math o gyfleoedd gwirfoddoli ar gael trwy ein gwefan.



MAETHU

Mae maethu yn ffordd hynod werth chweil i chi helpu i ysgafnhau'r baich ar genelau wrth gefnogi cŵn sy'n chwilio am eu cartref oes. Os credwch y gallwch ofalu am gi yn eich cartref eich hun, naill ai am y tymor byr neu'r hirdymor, ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth. Rydym yn rhoi ystod lawn o gefnogaeth i bobl sy'n maethu gan gynnwys talu am holl gostau bwyd, offer a milfeddyg, yn ogystal â chymorth cyson ag ymddygiad.



CODI ARIAN

Beth am gynnal eich digwyddiad codi arian eich hun i helpu milgwn a chŵn potsiwyr mewn angen? Efallai eich bod wastad wedi bod eisiau cynnal bore coffi, taith gerdded milgwn, neu gael eich noddi i neidio o awyren? Beth bynnag yw eich syniad, gallwn eich helpu i wneud iddo ddigwydd. Ewch i'n gwefan i ddarganfod mwy a sut i gysylltu.



SIOPA

Mae gennym 6 siop elusen yn y De. Mae ein siopau yn rhan allweddol o'n llwyddiant ac rydym yn ffodus bod gennym gymaint o roddwyr a siopwyr hael sy'n cefnogi ein helusen. Ewch i'n gwefan neu chwiliwch ar Google Maps i ddod o hyd i'ch siop Achub Milgwn Cymru agosaf.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn
www.greyhoundrescuewales.co.uk

